Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Jane Hutt AC
Arweinydd y Tŷ
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

21 Mehefin 2017

Annwyl Jane

Is-ddedfwriaeth sy'n deillio o gyfraith yr UE

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am newid bach i'r ffordd yr ydym yn adrodd ar rai is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol agos. Dylwn bwysleisio nad ydym yn rhagweld y bydd y newid hwn yn golygu unrhyw waith ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin i adrodd ar is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o gyfraith yr UE (gan ddefnyddio Rheol Sefydlog 21.3(ii) ar gyfer offerynnau statudol a Rheol Sefydlog 21.7(v) ar gyfer is-ddeddfwriaeth berthnasol arall).

Diben y dull hwn fyddai codi ymwybyddiaeth o is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o gyfraith yr UE ac, yn benodol, rhoi gwybod i'r Cynulliad am sut y mae cyfraith yr UE yn gweithio o ddydd i ddydd. Gallai hyn yn ei dro helpu i wella dealltwriaeth o effaith gadael yr UE mewn rhai meysydd polisi, gan helpu pwyllgorau yn eu swyddogaethau craffu a hefyd darparu cipolwg sy'n berthnasol i drafodaethau Llywodraeth y DU wrth adael yr UE.

Nid ydym yn ystyried y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb ar bwyntiau adrodd sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth ychwanegol hon sy'n gysylltiedig â'r UE fel mater o drefn, gan nad ydynt yn debygol o fod yn faterion sy'n peri pryder ac yn faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy. Yn yr achos annhebygol y byddai angen ymateb gan y Llywodraeth, caiff hyn ei nodi'n glir yn yr adroddiad.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Mae'r tîm clercio a'r tîm cyfreithiol sy'n cefnogi'r Pwyllgor yn parhau i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â thimau cyfreithiol â'u cymheiriaid yn Uned Lywodraethu a Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y newid hwn yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.